



Joint Council for
Qualifications

Addasiadau Rhesymol ar gyfer TAG Safon Uwch Gwyddorau Arnodiad sgiliau ymarferol

AQA

OCR

Pearson

CBAC

Mae dogfen y CGC *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol* yn nodi'r holl drefniadau mynediad sydd ar gael. Mae rhai trefniadau yn cael eu dirprwyo i ganolfannau ac nid oes angen tystiolaeth o angen na chais ffurfiol ar-lein arnynt. Mae'r trefniadau a ddirprwyir i ganolfannau yn cynnwys geiriadur dwyieithog, enwi lliwiau, anogwr, egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth a defnyddio prosesydd geiriau (gyda'r gwiriad sillafu a gramadeg wedi'i analluogi), er enghraifft. Mae trefniadau eraill yn gofyn bod tystiolaeth o angen er mwyn cefnogi cais ffurfiol ar-lein. Mae'r rhain yn cynnwys amser ychwanegol, darllenydd ac ysgrifennydd.

Bydd y Cydlynnydd AAA (Anghenion Addysgol Arbennig) yn gweithio gyda staff addysgu, ac uwch arweinwyr lle bo angen, i benderfynu ar drefniadau mynediad sy'n briodol ac yn rhesymol yng nghydestun yr Arnodiad Ymarferol.

Gan nad yw'r Arnodiad Ymarferol mewn Safon Uwch Bioleg, Cemeg, Daeareg a Ffiseg yn gydran sy'n cael ei hamseru ac fe'i cynhelir yn ystod amser gwersi arferol, nid oes angen rhoi amser ychwanegol a/neu egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth.

Ar gyfer ymgeisydd sydd â threfniant mynediad, a roddwyd ar waith gan y Cydlynnydd AAA, sef ei ffordd arferol o weithio, gall ddefnyddio'r trefniant hwn yn ystod yr Arnodiad Ymarferol os oes ei angen ac os nad yw'n tansilio'r asesiad. **Yr unig eithriad yw defnyddio cynorthwydd ymarferol, gan nad yw hyn yn caniatáu i ymgeisydd ddangos ei sgiliau annibynnol/cymhwysedd o'r sgiliau ymarferol.**

Gall y ganolfan ofyn am eithriad lle nad yw ymgeisydd, oherwydd ei anabledd, yn gallu dangos un neu fwy o'r cymhwyseddau yn y sgiliau ymarferol gofynnol, nac yn gallu defnyddio cyfarpar na thechnegau. Os cytunir arno, bydd nodyn yn ymddangos ar dystysgrif yr ymgeisydd. Dylai'r ymgeisydd gymryd rhan mewn cymaint o'r gweithgarwch ymarferol â phosibl i gefnogi ei wybodaeth a'i ddealltwriaeth ar gyfer asesu sgiliau ymarferol yn anuniongyrchol yn yr arholiad ysgrifenedig.

Nodir isod enghreifftiau penodol ar gyfer y Meini Prawf Asesu Ymarferol Cyffredin (CPAC).

Ar gyfer **CPAC1** mae angen i ymgeiswyr **ddilyn gweithdrefnau ysgrifenedig**.

Ar gyfer **CPAC2** mae angen i ymgeiswyr gymhwyso **dulliau ymchwiliol wrth ddefnyddio offer a chyfarpar**.

Ar gyfer **CPAC3** mae angen i ymgeiswyr **ddefnyddio amrywiaeth o offer a defnyddiau ymarferol yn ddiogel**.

Ar gyfer **CPAC4** mae angen i ymgeiswyr **wneud a chofnodi arsylwadau**.

Ar gyfer **CPAC5** mae angen i ymgeiswyr ymchwilio, cyfeirio ac **adrodd**.

Ar gyfer CPAC2 a CPAC3, mae trin offer yn sgil sy'n cael ei asesu ac mae'n weithgaredd ymarferol y mae'n **rhaid** i'r ymgeisydd ei ddangos. **Felly, ni all cynorthwydd ymarferol gyflawni tasgau ar ran yr ymgeisydd.**